NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Abladiad endosgopig ar gyfer ffistwla rhefrol

17 Ebrill 2019

Mae'r driniaeth hon yn gweithio'n dda ar gyfer ffistwla rhefrol ac nid oes unrhyw bryderon difrifol ynglŷn â pha mor ddiogel ydyw.

Twnnel cul sy'n ffurfio rhwng diwedd y coluddyn a'r croen ger yr anws yw ffistwla refrol. Gall achosi poen neu anesmwythder a gollwng gwaed neu grawn. Yn ystod y driniaeth hon, caiff endosgop (tiwb hyblyg tenau gyda chamera ar y pen) ei roi i mewn i'r ffistwla. Caiff electrode ei basio drwy'r endosgop er mwyn darparu gwres a fydd yn selio y tu mewn i'r ffistwla. Defnyddir pwythau i gau pen y ffistwla sydd agosaf at y coluddyn. Y nod yw annog y broses o wella.

Gall gwefan y GIG fod yn lle da i gael gwybod mwy. Mae gan ganllawiau triniaethau ymyriadol NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

**A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?**

Os cawsoch gynnig y driniaeth hon, dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol drafod yr hyn y mae'n ei olygu a dweud wrthych am y risgiau a'r manteision. Dylent drafod eich opsiynau gyda chi, a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Dylai hyn oll ddigwydd cyn y byddwch yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

**Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt**

- Beth yn union yw’r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

ISBN: 978-1-4731-3360-0



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.